



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Gofal a chymorth yn y cartref yng Nghymru

Gweithredu y cynllun strategol
pum-mlynedd 2017-2022



Cyflwyniad

Mae pobl yng Nghymru eisiau byw yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain gyda'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen. Mae gofal a chymorth yn y cartref yn gwneud hyn yn bosibl. Mae'n cynnwys ystod o weithgareddau sy'n gweithio mewn sawl ffordd a ddarperir gan amrywiaeth o bobl, gan gynnwys:

- unigolion eu hunain
- teuluoedd
- gofalwyr di-dâl
- cymunedau
- gwirfoddolwyr
- gweithlu cyflogedig.

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi'r camau allweddol a gaiff yr effaith fwyaf ar ofal a chymorth yn y cartref yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth y gwnaethom gasglu mewn digwyddiadau, yn ysgrifenedig a'r ymchwil y seliwyd y cynllun strategol pum mlynedd Gofal a chymorth yn y cartref yng Nghymru arno. Nid yw'n manylu'r camau gweithredu, nac yn rhestru'r holl bartneriaid ar gyfer

pob cam gweithredu; ystyrir y rhain gan yr asiantaethau arweiniol a'r grŵp llywio. Bydd grŵp llywio yn dod ag ystod o safbwyntiau at ei gilydd i oruchwylio'r cynllun gweithredu. Bydd y grŵp yn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni ac yn adolygu ei heffaith. Bydd yn gwneud hyn drwy gefnogi, herio a thrwy gyfathrebu â rhanddeiliaid a rhwydweithiau perthnasol y tu allan i'r grŵp llywio.

Mae pum mlynedd yn amser hir. Fel mae amgylchiadau yn newid, mae rhai camau yn debygol o esblygu. Byddwn yn adolygu'r cynllun i sicrhau ei fod yn aros yn berthnasol ac yn mynd i'r afael â'r hyn sydd ei angen. Bydd gan y grŵp llywio rôl bwysig wrth gytuno'r newidiadau.

Yr egwyddorion a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynllun yw:

- Mae angen i'r camau gweithredu gynnal egwyddorion deddfwriaeth a pholisi cyfredol, gan gynnwys Gofal Iechyd Darbodus, Ddeddf gwasanaethau cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Mae angen inni gymryd agwedd gynhyrchiol ar sail cydberthynas gyfartal a chydberthynas rhwng gweithwyr proffesiynol, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Co-production Wales wedi datblygu offeryn hunan-fyfyrio a all helpu gyda hyn www.goodpractice.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=96&mid=187&fileid=85.
- Mae angen ystyried ystod o ddulliau o ddarparu gofal a chymorth yn y cartref; gallai'r rhain gynnwys cymorth a ddarperir gan ofalwyr a chymunedau, gofal cymdeithasol, gwasanaethau iechyd a thai. Mae hefyd yn cynnwys cefnogaeth i ofalwyr ac i bobl sydd angen gofal a chymorth
- Diffinnir cymunedau fel cymunedau sy'n bwysig i bobl. Yn ogystal ag ymwneud â lle mae person yn byw, maent hefyd yn cynnwys cymunedau o amgylch diwylliant, crefydd, hunaniaeth rywiol neu fuddiannau personol a nodweddiad
- Mae ystod eang o bobl derbyn gofal a chymorth yn y cartref; mae angen ystyried yr angen am ofal a chefnogaeth arbenigol ar gyfer pob gweithred.

Defnyddiwyd llawer o adborth i ddatblygu'r cynllun. Datblygwyd o gwmpas chwe maes allweddol y cynllun strategol, gan ganolbwyntio ar y meysydd ddenodd yr adborth mwyaf ac sy'n cyflawni newidiadau angenrheidiol. Mae rhai gweithredoedd yn mesur cynnydd yn benodol; blaenoriaethir yn y modd canlynol:

1. Camau gweithredu gyda'r effaith fwyaf, lle cawsom y rhan fwyaf o adborth
2. Camau sy'n rhoi cefnogaeth gref i'r newidiadau sydd angen digwydd
3. Camau a fydd yn cael rhywfaint o effaith, gyda rhywfaint o gefnogaeth gan adborth

Mae'r camau gweithredu yn perthyn i dri chategori eang, a restrir yn y cynllun fel 'statws':

Gweithredol: camau penodol a gytunwyd a allai fod wedi dechrau eisoes

Cytunwyd: gweithredoedd a gytunwyd fel blaenoriaeth gyda phartneriaid ond ddim yn weithredol eto

Argymhellir: meysydd gwaith llai penodol lle nodwyd yr angen am weithredu, ond sydd angen mwy o ymchwil a chytundeb.

Canlyniad 1: Sicrhau bod pobl sydd angen cyngor, gofal a chymorth a gofalwyr yn bartneriaid cyfartal sy'n gallu defnyddio'u sgiliau, eu harbenigedd a'u profiadau i helpu i wneud penderfyniadau

Effaith

- Cefnogir unigolion i wneud yr hyn sydd bwysicaf i'w lles - canlyniadau personol yn cael eu cytuno ar y cyd
- Mae unigolion a gofalwyr yn helpu i lunio polisi ac ymarfer
- Mae gan sefydliadau a chymunedau ddiwylliant o weithio ochr yn ochr ag unigolion a gofalwyr

Amcan	Camau gweithredu	Partneriaid arweiniol	Blaenoriaeth	Pryd	Statws
1. Ymagwedd 'beth sy'n bwysig' yn cael ei fewnosod yn ymarferol	a) Sicrhau bod unrhyw gyngor neu ymyriadau yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a gytunwyd gyda'r unigolion, gan ddefnyddio adnoddau a ddarperir gan Ofal Cymdeithasol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ôl yr angen	Awdurdodau Lleol Darparwyr gwasanaeth GIG Cymru	1	2017-22	Gweithredol
	b) Nodi a rhannu arferion da trwy hyb gwella ar-lein	Gofal Cymdeithasol Cymru	2	2018-19	Gweithredol
	c) Dylanwadu a chefnogi partneriaid allweddol i fabwysiadu ymagwedd 'beth sy'n bwysig' tuag at roi cyngor, asesu a gofal parhaus a chymorth yn y cartref	Gofal Cymdeithasol Cymru	1	2017-2022	Gweithredol
	ch) Cefnogi'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ehangach i gymryd agwedd 'beth sy'n bwysig'	Gofal Cymdeithasol Cymru GIG Cymru	2	2018-2020	Argymhellir
	d) Gwerthuso effaith cymryd agwedd 'beth sy'n bwysig' at ymarfer	I'w gadarnhau	3	2020-22	Argymhellir
<i>Gweler hefyd ganlyniad 3; amcan 3 a chanlyniad 4; amcan 3</i>					

Amcan	Camau gweithredu	Partneriaid arweiniol	Blaenoriaeth	Pryd	Statws
2. Polisi ac ymarfer yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl	a) Adolygu a gwerthuso sut mae unigolion a gofalwyr yn dylanwadu ar bolisi ar hyn o bryd, comisiynu a gwella gwasanaethau i ddatblygu dull gweithredu rhanbarthol gytunedig	Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol AGGCC	1	2017-19	Argymhellir
	b) Sefydlu fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynnwys y cyhoedd yn seiliedig ar dystiolaeth a darganfyddiadau o'r adolygiad	Gofal Cymdeithasol Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru AGGCC	2	2018-19	Argymhellir
	c) Gwerthuso sut mae'r fframwaith yn cael ei roi ar waith a chymryd camau fel bo'r angen pan nad yw'r fframwaith yn cael ei roi ar waith	Gofal Cymdeithasol Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru AGGCC	2	2021-22	Argymhellir
	ch) Cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol	Gofal Cymdeithasol Cymru Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru	2	2017 - 22	Cytunwyd

Canlyniad 2: Mae gofal a chymorth yn y cartref yn cael ei adeiladu o gwmpas y cymunedau sy'n bwysig i bobl

Effaith

- Mae pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr yn teimlo'n rhan o'r gymuned
- Mae gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi - gan gynnwys pobl sydd ddim yn adnabod eu hunain fel gofalwyr
- Mae pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr yn gwybod pa gefnogaeth sydd ar gael iddynt
- Mae gofal a chymorth yn y cartref yn darparu ymyrraeth gynnar ac atal cynaliadwy
- Mae rhwydweithiau cymorth yn chwarae rôl fwy wrth alluogi pobl

Amcan	Camau gweithredu	Partneriaid arweiniol	Blaenoriaeth	Pryd	Statws
1. Cyfeiriad clir ar gyfer sut i adeiladu gofal a chymorth yn y cartref o gwmpas cymunedau	a) Mae cynllunio a datblygu gofal a chymorth yn y cartref hirdymor yn seiliedig ar gymhorthion cymunedol, anghenion poblogaeth ac asesiadau lles	Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	1	2017-22	Gweithredol
	b) Nodi ymagweddau arloesol at adeiladu gwydnwch cymunedol sy'n cefnogi unigolion i fyw gartref, dim ots pa mor gymhleth yw eu hanghenion, cyhyd ag y gallant	Gofal Cymdeithasol Cymru Partneriaid ymchwil GIG Cymru Asiantaethau tai	1	2017-18	Argymhellir
	c) Profi a gwerthuso mentrau a methodolegau newydd, gan gynnwys defnyddio technoleg a rhagnodi cymdeithasol, i ddatblygu gofal a chymorth yn y cartref ac o fewn cymunedau	Gofal Cymdeithasol Cymru Partneriaid ymchwil	2	2018 – 21	Argymhellir
	<i>Gweler hefyd ganlyniad 3; amcan 4</i>				

Amcan	Camau gweithredu	Partneriaid arweiniol	Blaenoriaeth	Pryd	Statws
2. Cefnogi gofalwyr di-dâl yn eu rôl	a) Cynnal adolygiad 'beth sy'n gweithio' mewn perthynas â datblygu a gwella cefnogaeth i ofalwyr, i gynnwys adolygiad cyflym o'r dystiolaeth ac arloesedd sy'n dod i'r amlwg mewn cymorth i ofalwyr oedolion a fyddai'n cynnwys enghreifftiau perthnasol o Gymru a gweddill y DU y gellir ei hailadrodd	Gofal Cymdeithasol Cymru GIG Cymru	1	2017 – 18	Cytunwyd
	b) Cynnal gweithdai i wella dealltwriaeth a ffyrdd o gydweithio â gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr mewn galar	Gofal Cymdeithasol Cymru Gofal i Gydweithredu	1	2017-18	Cytunwyd
	c) Rhannu dysgu ar sut mae cymorth da i ofalwyr yn edrych	Carers organisations Gofal Cymdeithasol Cymru	2	2018 ymlaen	Argymhellir
	ch) Hyrwyddo adnoddau dysgu ar gyfer gofalwyr di-dâl a datblygu adnoddau yn ôl yr angen	Gofal Cymdeithasol Cymru Iechyd I'w gadarnhau	1	2017-18 ymlaen	Argymhellir
	d) Cyflwyno a hyrwyddo dysgu hygyrch i ofalwyr di-dâl sy'n eu helpu yn eu rôl gofalu	Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	2	2017-22	Argymhellir
	dd) Ymgorffori cefnogaeth i ofalwyr di-dâl wrth gynllunio a datblygu gofal a chymorth yn y cartref	Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	1	2017-22	Argymhellir

Canlyniad 3: Mae gofal a chymorth yn y cartref yn hyrwyddo canlyniadau unigol ac yn cwrdd anghenion gwahanol

Effaith

- Ymagwedd gyson gan bartneriaid i gefnogi pobl â chanlyniadau unigol
- Profiad gwell o ddarparu gwasanaethau
- Gwell perthynas rhwng pobl sydd angen gofal a chymorth, gofawyr a'r gweithlu
- Bylchau a dyblygu yn y ddarpariaeth yn cael ei nodi
- Cyfleoedd ar gyfer newid a gwelliant yn cael ei nodi ac argymelliadau wedi'u gwneud

Amcan	Camau gweithredu	Partneriaid arweiniol	Blaenoriaeth	Pryd	Statws
1. Gofal a chymorth yn y cartref sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ag a'r person yn ganolog	a) Nodi, archwilio a rhannu dysgu o ymarfer gorau yng Nghymru, gweddill y DU ac yn rhyngwladol	Gofal Cymdeithasol Cymru	2	2018 – 19	Argymhellir
	b) Datblygu a rhannu adnoddau i gefnogi cymryd risgiau positif	Gofal Cymdeithasol Cymru	1	2018 - 19	Argymhellir
	c) Cyflwyno cam dau o hyfforddiant Ymarfer Gwaith Cymdeithasol sy'n Canolbwyntio ar Gefnogi Canlyniadau	Gofal Cymdeithasol Cymru	1	2017 - 2018	Gweithredol
	ch) Ymgorffori diwylliant ac arferion sy'n cefnogi gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y person sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gartref	ADSSC Awdurdodau Lleol Byrddau Iechyd Darparwyr gwasanaeth	1	2017-22	Gweithredol

Amcan	Camau gweithredu	Partneriaid arweiniol	Blaenoriaeth	Pryd	Statws
2. Mae sefydliadau'n gytûn ar egwyddorion ac ymagwedd ar gyfer gofal a chymorth yn y cartref	a) Sicrhau bod cynllunio, dylunio a darparu gofal a chymorth strategol yn y cartref yn cyd-fynd ag iechyd, addysg, tai a gofal cymdeithasol wrth ddiwallu canlyniadau lles personol	Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	1	2017-22	Gweithredol
	b) Cefnogi partneriaid i alluogi comisiynu ar y cyd, gan gynnwys cyllidebau cyfun ac adnoddau i ddarparu gofal a chymorth yn y cartref	Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol	2	2018 - 20	Gweithredol
	c) Archwilio potensial i alinio termau ac amodau yn well ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth ar draws cyflogwyr, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol a thai; statudol, annibynnol a'r trydydd sector	Llywodraeth Cymru Awdurdodau Lleol Byrddau Iechyd Cyflogwyr	3	2019 - 20	Argymhellir
	ch) Nodi ymarfer da wrth gyd-weithio, rhwystrau a meysydd i'w gwella er mwyn llywio methodoleg gwella	Gofal Cymdeithasol Cymru Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	3	2020 - 21	Argymhellir
3. Mae gwasanaethau gofal a chymorth yn y cartref yn hyblyg a gallant ymateb i'r hyn sy'n bwysig i bobl	a) Sicrhau fod darparwyr gwasanaethau yn addasu ac yn cael eu pweru i weithio gydag unigolion i gymryd mwy o reolaeth dros eu bywydau	Awdurdodau Lleol Byrddau Iechyd Darparwyr	2	2018 - 19	Argymhellir
	b) Sicrhau bod y canllawiau statudol ar gofnodi ac adrodd yn erbyn canlyniadau personol yn cael eu deall a'u dehongli gyda chysondeb ar draws partneriaid	Llywodraeth Cymru Gofal Cymdeithasol Cymru	1	Yn barhaus	Argymhellir
	c) Datblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer technolegau newydd a dulliau peilot	Bwrdd Gofal Cymhwysol Technoleg Gofal Cymdeithasol Cymru	3	2017 - 18	Cytunwyd

Amcan	Camau gweithredu	Partneriaid arweiniol	Blaenoriaeth	Pryd	Statws
4. Mae ystod o opsiynau ar gael sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig	a) Nodi rhwystrau i dderbyn taliadau uniongyrchol, dod o hyd i atebion a hyrwyddo mynediad i unigolion a gofalwyr; i gynnwys hyder wrth gynnig taliadau uniongyrchol a dealltwriaeth o'u hyblygrwydd a defnydd posibl	Cyfnewidfa Ymarfer a Chyfnwid Gwybodaeth Taliadau Uniongyrchol Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan	2	2017-	Gweithredol
	b) Rhannu dysgu ar ddefnyddiau hyblyg a chreadigol o daliadau uniongyrchol trwy ddigwyddiadau a straeon digidol	Gofal Cymdeithasol Cymru Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan	2	2017 – 18	Gweithredol
	c) Ymchwilio i ddefnydd, effeithiolrwydd a chynaliadwyedd taliadau uniongyrchol	Taliadau Uniongyrchol Gofal Cymdeithasol Cymru	2	2018 – 19	Argymhellir
	ch) Sefydlu sut i alinio cyllid gofal iechyd parhaus a thaliadau uniongyrchol i gefnogi dewis a rheolaeth unigol	Llywodraeth Cymru Grŵp Gofal Cymhleth	1	I'w gadarnhau	Argymhellir
	d) Archwilio defnydd cyllidebau iechyd personol yng Nghymru	Taliadau Uniongyrchol	3	2019 – 20	Argymhellir
	dd) Archwilio datblygiad cronfeydd gwasanaeth unigol yng Nghymru	Taliadau Uniongyrchol	3	2019 - 20	Argymhellir
5. Arolygu cyson, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau	a) Ymgorffori arolygu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal a chymorth yn y cartref sy'n cefnogi ymarfer cyson sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.	AGGCC	2	2018 – 20	Gweithredol
	b) Datblygu safonau ansawdd ar gyfer gofal a chymorth yn y cartref i'w ddefnyddio yn y meini prawf arfarnu arolygu	AGGCC Darparwyr	2	2018-20	Gweithredol

Canlyniad 4: Buddsoddi mewn ystod o opsiynau o ansawdd sy'n helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth a'u lles

Effaith

- Gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth
- Mwy o ddewis o ofal a chymorth arbenigol yn y cartref, gan gynnwys cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol a diwallu anghenion cymhleth
- Opsiynau mwy hyblyg ar gyfer gofal a chymorth
- Gwell cyfathrebu, ymddiriedaeth a pherthnasau gweithio
- Mwy o allu i ddefnyddio adnoddau yn effeithiol ac yn effeithlon
- Dynodi cyfleoedd a datrysiadau pellach

Amcan	Camau gweithredu	Partneriaid arweiniol	Blaenoriaeth	Pryd	Statws
1. Ariannu priodol i ddarparu gofal a chymorth yn y cartref	a) Cyfeirio adnoddau o ofal aciwt a sefydliadol i ofal a chymorth yn y gymuned i alluogi dewis a chynaliadwyedd gofal a chymorth yn y cartref, gan gynnwys gwasanaethau cyffredinol sy'n cefnogi atal a lles, cefnogaeth i ofalwyr, iechyd, tai a gofal cymdeithasol	Llywodraeth Cymru	1	2017 – 21	Argymhellir
2. Cefnogi cyflogwyr i fynd i'r afael â thâl ac amodau	a) Gwerthuso effeithiolrwydd a chyfraniad economaidd gofal cymdeithasol	Gofal Cymdeithasol Cymru gyda phartneriaid yn y DU	2	2018 – 19	Gweithredol
	b) Gweithredu ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad ar weithredu Cam 2 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 - agweddau'r Gweithlu	Llywodraeth Cymru	1	2017 – 18	Cytunwyd
	c) Blaenoriaethu'r Gronfa Gofal Integredig ar gyfer cefnogi gofal a chefnogaeth gynaliadwy yn y cartref	Llywodraeth Cymru	2	2018 – 20	Argymhellir
	ch) Nodi a rhannu pryderon am faterion gweithlu gofal cartref er mwyn llywio polisi a chynllunio	Grŵp Cyfeirio Arbenigol ar gyfer Gofal Cartref yng Nghymru	1	2017	Cytunwyd

Amcan	Camau gweithredu	Partneriaid arweiniol	Blaenoriaeth	Pryd	Statws
3. Model newydd o gomisiynu	a) Cefnogi comisiynwyr gydag offer a methodolegau sy'n galluogi ymagwedd gydweithredol i gyflawni canlyniadau gwell i bobl	Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Fforwm Darparwyr Cenedlaethol	1	2017-22	Gweithredol
	b) Cyflwyno cyfres o weithdai i gomisiynwyr, darparwyr gwasanaethau a'r arolygiaeth i fynd i'r afael â rhwystrau a materion wrth ddarparu modelau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gofal cartref	Gofal Cymdeithasol Cymru Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol	1	2017 - 18	Gweithredol
	c) Datblygu a chyhoeddi pecyn cymorth comisiynu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal cartref i hyrwyddo hyblygrwydd y ddarpariaeth, gan gynnwys ffyrdd o rannu cyfrifoldeb am ddiwallu canlyniadau lles personol gyda darparwyr, gan adeiladu ar ddysgu o'r gweithdai (uchod)	Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Fforwm Darparwyr Cenedlaethol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	1	2018 - 19	Gweithredol
	ch) Ymgorffori dull cyson o gomisiynu, yn seiliedig ar y pecyn cymorth, sy'n hyrwyddo canlyniadau a hyblygrwydd dros brosesau trwy: <ul style="list-style-type: none"> • datganiad o egwyddorion, nodau a gweledigaeth • cynllunio rhanbarthol 	Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Fforwm Darparwyr Cenedlaethol	2	2017-18	Argymhellir
	d) Datblygu, rhannu a diweddarau gwybodaeth am bwerau a gweithdrefnau caffael sy'n cefnogi comisiynu ar y cyd, hyblyg a chanolbwyntio ar ganlyniadau	Fforwm Darparwyr Cenedlaethol Cenedlaethol	2	I'w gadarnhau	Argymhellir
	dd) Cynnal dadansoddiad o'r farchnad genedlaethol o wasanaethau gofal a chymorth yn y cartref i nodi tueddiadau, cyfleoedd a risgiau	Fforwm Darparwyr Cenedlaethol	1	2018 - 19	Argymhellir

Amcan	Camau gweithredu	Partneriaid arweiniol	Blaenoriaeth	Pryd	Statws
4. Adnoddau wedi'u rhannu	a) Archwilio ble a sut y gellir rhannu adnoddau i symleiddio prosesau, gwella effeithiolrwydd a chreu effeithlonrwydd, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • swyddogaethau busnes rhwng sefydliadau darparwyr • defnydd cyson ac effeithiol o dechnoleg rhwng comisiynwyr a darparwyr • dull cyson o dendro, contractio a monitro rhwng sefydliadau 	I'w gadarnhau	3	2018-22	Argymhellir

Canlyniad 5: Sicrhau fod gan y gweithlu wybodaeth, sgiliau a gwerthoedd i ddarparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gartref

Effaith

- Caiff unigolion eu cefnogi gan ymarferwyr hyderus a medrus sydd wedi cymryd rhan weithredol yn egwyddorion y sgwrs 'beth sy'n bwysig'
- Gall cysondeb yn yr ymagwedd hon gael ei ddisgwyl gan gynrychiolwyr o ofalwyr
- Mae gwaith gofal a chymorth yn cael ei ystyried fel dewis gyrfa gadarnhaol
- Gwell ymgysylltiad â dysgu a datblygu
- Mwy o wybodaeth a sgiliau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth
- Gwelliannau mewn recriwtio a chadw'r gweithlu
- Perthnasoedd gwaith gwell
- Darparu gwasanaeth o ansawdd gwell
- Gweithlu bodlon sydd wedi'u grymuso

Amcan	Camau gweithredu	Partneriaid arweiniol	Blaenoriaeth	Pryd	Statws
1. Caiff gweithlu gofal a chymorth yn y cartref eu gwerthfawrogi yn eu rolau	a) Datblygu cynllun hirdymor i godi proffesiynoldeb, proffil ac enw da gofal cymdeithasol fel dewis gyrfa, gan gysylltu â gwaith rhanbarthol i gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd	Gofal Cymdeithasol Cymru	1	2017 – 21	Argymhellir
	b) Dathlu a rhannu arferion da trwy'r Gwobrau Gofal Cymdeithasol a gwobrau GIG Cymru	Gofal Cymdeithasol Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru	2 3		Gweithredol Argymhellir
	c) Rhannu enghreifftiau ymarfer o gydweddu gweithwyr gydag unigolion i ymgorffori agwedd 'beth sy'n bwysig' at ymarfer	Gofal Cymdeithasol Cymru Cyflogwyr			

Amcan	Camau gweithredu	Partneriaid arweiniol	Blaenoriaeth	Pryd	Statws
2. Gall arweinwyr, rheolwyr ac ymarferwyr gyflwyno'r trawsnewid angenrheidiol	a) Datblygu ymagwedd sy'n galluogi gweithwyr i ddarparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gartref trwy arweinyddiaeth wybodus a rhagweithiol	Gofal Cymdeithasol Cymru	1	2018 – 19	Argymhellir
	b) Gweithredu rhaglen ddysgu sy'n canolbwyntio ar gomisiynu moesegol, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer ystod o rolau mewn comisiynu iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys rheolwyr gofal unigol neu nyrsys, rheolwyr canol ac uwch a thimau comisiynu, caffael a chontractio	Gofal Cymdeithasol Cymru	2	2018 - 20	Argymhellir
3. Gwella recriwtio a chadw'r gweithlu gofal cymdeithasol	a) Datblygu fframwaith gyrfaoedd, recriwtio a chadw a chynllun gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth o ymchwil ac ymarfer	Gofal Cymdeithasol Cymru Cyflogwyr	1	2017-19	Gweithredol
4. Datblygu strategaeth gweithlu gofal cymdeithasol	a) Datblygu strategaeth gweithlu gofal cymdeithasol sy'n cefnogi datblygu'r gweithlu, gan gynnwys mesur effaith Brexit ar y gweithlu	Gofal Cymdeithasol Cymru	2	2018	Gweithredol
5. Gweithlu cymwys a chymorth	a) Ymgorffori fframwaith sefydlu ar y cyd ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol	Gofal Cymdeithaol Cymru	1	2017 -18	Gweithredol
	b) Gweithio gyda Chymwysterau Cymru i ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau galwedigaethol a strategaeth gyflawni ymarferol	Gofal Cymdeithaol Cymru AGIC	1	2017 – 18	Gweithredol
	c) Rheoleiddio darparu hyfforddiant gofal cymdeithasol i wella ansawdd	Gofal Cymdeithaol Cymru	1	2018 –22	Cytunwyd
	ch) Sefydlu grwpiau cefnogi mentoriaid cymheiriaid i gefnogi staff mewn meysydd penodol, e.e. Anghenion cymhleth dementia	Grwpiau Gweithlu	2	2018 -22	Argymhellir

Amcan	Camau gweithredu	Partneriaid ar-weiniol	Blaenoriaeth	Pryd	Statws
6. Proffesiynoli a gwella sgiliau'r gweithlu gofal cartref trwy gofrestru	a) Cofrestru'r gweithlu cartref erbyn 2020 a thargeddu cyllid ar gymwysterau ar gyfer cofrestru a datblygu	Gofal Cymdeithasol Cymru	1	2017 – 20	Gweithredol
7. Mae cyfleoedd hyfforddi ar gael i wirfoddolwyr, gofalwyr di-dâl a'r gweithlu (gan gynnwys cynorthwyr personol)	a) Datblygu hyfforddiant a dysgu o ansawdd da, sy'n ysgogi meddwl o gwmpas meysydd allweddol a nodwyd gyda phartneriaid	Gofal Cymdeithasol Cymru GIG Cymru	2	2017-22	Argymhellir
	b) Datblygu opsiynau hyfforddi ar gyfer gwirfoddolwyr, gofalwyr di-dâl a dinasyddion	Gofal Cymdeithasol Cymru	2	2018 - 20	Argymhellir
	c) Datblygu ffyrdd o adnabod neu achredu hyfforddiant a'i galluogi i gael ei gydnabod ar draws ffiniau daearyddol, sector a threfniadol	Gofal Cymdeithasol Cymru	2	2017 -22	Argymhellir
	ch) Datblygu strategaeth gweithlu ar y cyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cynnwys cydnabod gofalwyr di-dâl a gwirfoddolwyr	Gofal Cymdeithasol Cymru GIG Cymru	1	2019 – 20	Argymhellir

Amcan	Camau gweithredu	Partneriaid arweiniol	Blaenoriaeth	Pryd	Statws
8. Gweithlu hyblyg ac aml-fedrus	a) Rhannu neu alinio gweithgareddau datblygu'r gweithlu cenedlaethol i gefnogi cyd-weithio rhwng gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a thai	Gofal Cymdeithaol Cymru AGIC	2	2018 – 22	Argymhellir
	b) Datblygu fframweithiau cymwysterau a hyfforddi ar y cyd neu wedi alinio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol	Gofal Cymdeithaol Cymru GIG Cymru	2	2019 - 20	Argymhellir
	c) Datblygu ymagwedd gytunedig o ran atebolrwydd a chymhwysedd wrth i ofalwyr di-dâl a gweithwyr gofal a chymorth yn y cartref (gan gynnwys cynorthwyyr personol) ymgymryd â thasgau sy'n gysylltiedig ag iechyd	Llywodraeth Cymru Gofal Cymdeithaol Cymru AGIC	1	2017- 22	Argymhellir
	ch) Datblygu cyfleoedd ar gyfer comisiynu a chyflwyno hyfforddiant a datblygu ar y cyd rhwng sefydliadau a chyflogwyr, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, y sector annibynnol a'r trydydd sector	Darparwyr Grwpiau Gweithlu Rhanbarthol	2	2019 - 21	Argymhellir
	c) Datblygu a hyrwyddo dysgu o amgylch asesu ac adolygu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer y gweithlu	Gofal Cymdeithasol Cymru Grŵp Cyfeirio Arbenigol Gofal Cartref Cymru	1	2017 -22	Argymhellir

Canlyniad 6: Mae gofal a chymorth yn y cartref yn cael ei ddylanwadu gan dystiolaeth o ymchwil sy'n seiliedig ar ymarfer ac academaidd**Effaith**

- Mae tystiolaeth ar gael i lywio ymarfer a gwella gwasanaethau
- Gwell dealltwriaeth am wahanol fodolau gofal a chefnogaeth
- Dealltwriaeth glir o ffactorau sy'n effeithio ar faterion allweddol
- Mae arloesi ac arfer yn cynhyrchu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio

Amcan	Gweithredoedd	Partneriaid arweiniol	Blaenoriaeth	Pryd	Statws
Rydym yn dysgu o arfer da	a) Gwerthuso ac amcangyfrif gwerth atal ac ymyrraeth gynnar yn unol â'r strategaeth ymchwil a datblygu	Gofal Cymdeithasol Cymru, Ysgol Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol	1	2018-19	Gweithredol
	b) Datblygu canolbwyntiau a rhwydweithiau i alluogi rhannu ymchwil, gwybodaeth, adnoddau presennol, tystiolaeth ymarfer a data am ofal a chymorth yn y cartref	Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru	2	2018-21	Argymhellir
	c) Datblygu rhaglenni i brofi arloesedd a ffyrdd newydd o weithio	I'w gadarnhau	2	I'w gadarnhau	Argymhellir
	ch) Datblygu diwylliant o arloesedd, gwelliant, arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ymwybyddiaeth ymchwil	I'w gadarnhau	3	2018-22	Argymhellir
	d) Ymateb i arolwg Llywodraethu Cymru ar effaith y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	Gofal Cymdeithasol Cymru	2	I'w gadarnhau	Cytunwyd



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Manylion cyswllt

Ein huchelgais yw annog deialog rheolaidd gyda phobl sydd â diddordeb mewn gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar. Rydym yn croesawu adborth am ein cynlluniau a'n gweithgareddau.

Defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

gofalcymdeithasol.cymru